# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## MASH (Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr) - Datganiad Prosesu Teg/Preifatrwydd

### Pwy ydym ni, a beth ydym ni'n ei wneud?

Hwb Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato'n aml fel MASH) yw'r un pwynt cyswllt ar gyfer gweithwyr proffesiynol (fel gweithwyr cymdeithasol, staff gofal a chymorth, athrawon neu weithwyr iechyd proffesiynol), ac aelodau o'r cyhoedd i adrodd am bryderon diogelu ynghylch oedolion a phlant ledled Pen-y-bont ar Ogwr.

### 1. Pa wybodaeth a gwybodaeth am bwy sydd gennym?

Mae gan yr Asiantaethau Partner o fewn MASH wybodaeth sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau i'r hwb yn y gorffennol a'r presennol. Gall yr atgyfeiriadau hyn gynnwys gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag:

- Unrhyw berson sydd mewn perygl (oedolyn neu blentyn)
- Unrhyw droseddwr a amheuir
- Rhieni / perthynas agosaf / aelodau o'r teulu / gofalwyr
- Unrhyw berson neu bobl eraill sydd mewn perygl a allai fod yn byw yn yr eiddo
- Tystion
- Person a gododd y pryder (gweithiwr proffesiynol neu aelod o'r cyhoedd)

Bydd y math o wybodaeth sydd gan yr Asiantaethau Partner o fewn MASH yn amrywio yn dibynnu ar natur y pryder, ond mae'n debygol o gynnwys rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth ganlynol:
Person sydd mewn perygl:

- Enw, dyddiad geni a dynodwyr personol eraill megis rhif yswiriant gwladol, rhif cyfeirnod yr awdurdod lleol, rhif cyfeirnod iechyd.
- Manylion unrhyw weithgaredd blaenorol â'r sefydliadau a restrir uchod.
- Gwybodaeth am anabledd (os yw'n berthnasol)
- Manylion Meddyg Teulu / Gweithiwr Cymdeithasol
- Hanes trais yn y cartref
- Euogfarnau blaenorol
- Risgiau i bobl eraill
- Pryderon dioddefwyr

Gweithiwr proffesiynol sy'n adrodd am y pryder (sylwer nad yw gweithwyr proffesiynol yn gallu aros yn ddienw wrth adrodd am bryder):

- Enw, gwybodaeth gyswllt
- Teitl swydd
- Sefydliad
- Perthynas i'r oedolyn neu'r plentyn sydd mewn perygl

Manylion y person sy'n peri pryder:

- Enw
- Oedran, dyddiad geni
- Rhyw

- Ethnigrwydd
- Manylion cyswllt
- Perthynas i'r oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl

Rhiant / gofalwr / eraill ar yr aelwyd:

- Enw, cyfeiriad, dyddiad geni, gwybodaeth gyswllt (e-bost, rhif ffôn ac ati)
- Perthynas â'r oedolyn neu blentyn sydd mewn perygl
- Cyfrifoldeb rhiant
- Rhyw
- Ethnigrwydd

Manylion gweithwyr proffesiynol eraill dan sylw:

- Enw
- Rhif cyswllt

Manylion y rhan a chwaraewyd yn flaenorol gan:

- Y Gwasanaethau Plant neu Oedolion

## 2. Sut ydym ni'n defnyddio'r wybodaeth sydd gennym?

Mae MASH yn bartneriaeth rhwng y sefydliadau a'r asiantaethau canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Gwasanaethau Cymunedol, Oedolion, Plant, Addysg a Chymorth i Deuluoedd
- Heddlu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Y Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Mae'r Asiantaethau Partner o fewn y MASH yn ymdrin â phryderon ynghylch oedolion neu blant sydd mewn perygl neu berygl mawr o gam-drin domestig. Mae staff o'r Heddlu, gwasanaethau Iechyd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, gwasanaethau Addysg, Gofal Cymdeithasol Plant a Diogelu Oedolion yn gweithio gyda'i gilydd yn swyddfa MASH. Mae MASH yn derbyn pryderon diogelu yn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal, athrawon a meddygon yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd ac aelodau o'r teulu.

Pan fo staff arbenigol CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi asesu bod perygl o niwed i oedolyn neu blentyn o ganlyniad i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod, bydd cynrychiolwyr o'r gwahanol asiantaethau yn MASH a'r tu allan yn casglu gwybodaeth o'u ffynonellau eu hunain er mwyn creu darlun o amgylchiadau'r achos. O ganlyniad, gellir gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch pa gamau i'w cymryd a'r cymorth sy'n cael eu targedu at yr achosion mwyaf brys. Mae gwell cydgysylltu rhwng asiantaethau yn arwain at well ymyrraeth amserol wedi'i thargedu ar gyfer oedolion, plant a theuluoedd.

## 3. O ble mae'r gwasanaeth yn cael fy ngwybodaeth?

Mae MASH yn derbyn gwybodaeth gan:

Y person neu'r sefydliad sy'n gwneud yr atgyfeiriad. Gallai hyn fod:

- Y person sydd mewn perygl
- Aelod o deulu neu ffrind i'r person sydd mewn perygl,
- Aelod o'r cyhoedd sy'n pryderu

- Gweithiwr proffesiynol fel gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr gofal, athro neu weithiwr iechyd ac ati.
- Ei bartneriaid ôl-weithredol.

Mae MASH hefyd yn cynhyrchu ei wybodaeth ei hun, er enghraifft wrth gydweithio i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu ar ran person.

## 4. Beth fyddwn ni’n gwneud â'ch gwybodaeth bersonol?

Bydd MASH yn defnyddio'r wybodaeth hon i:

- Gynnal 'Trafodaeth Amlasiantaethol'. Yn y cyfarfod, bydd yr holl wybodaeth berthnasol a gasglwyd gan asiantaethau partner yn cael ei hadolygu i bennu'r camau gweithredu mwyaf priodol ac i gefnogi'r achosion mwyaf brys.

- Rhoi adborth i'r person sydd wedi adrodd am y pryder.

- Cyfeirio Oedolion, Plant a Theuluoedd at y gwasanaethau neu'r cymorth mwyaf priodol.

## 5. Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'r wybodaeth hon?

Dywed cyfraith Diogelu Data ein bod yn cael defnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol dim ond pan fo gennym resymau priodol a chyfreithlon dros wneud hynny.

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol o fewn yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth at ddibenion diogelu oherwydd bod un o'r canlynol yn berthnasol:

- Rydych wedi rhoi eich caniatâd penodol

- Mae’n angenrheidiol er mwyn gweithredu contract gyda chi

- I gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol

- Mae angen diogelu eich buddiannau hanfodol chi neu berson arall

- Mae angen cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd

- Mae'n angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon.

O ran gwybodaeth fwy sensitif (h.y. gwybodaeth categori arbennig am hil person, tarddiad ethnig, gwleidyddiaeth, crefydd, geneteg, iechyd, cyfeiriadedd neu fywyd rhywiol) ein sail gyfreithlon yw:

- Cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol
- At ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol

- Rydych wedi rhoi eich caniatâd penodol

- Diogelu eich buddiannau hanfodol neu fuddiannau unigolyn arall
- Archifo er budd y cyhoedd, ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol
- Rhesymau o ddiddordeb sylweddol
- Camau cyfreithiol neu gamau llys perthnasol
- Gwybodaeth yr ydych chi wedi ei gwneud yn gyhoeddus eisoes
- Rhesymau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd

## 6. Gofalu am eich gwybodaeth

Mae MASH Pen-y-bont ar Ogwr yn cymryd diogelwch yr holl ddata personol sydd o dan ei reolaeth o ddifrif.

Bydd MASH yn ymdrin â data personol yn unol â chyfreithiau diogelu data. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel; dim ond staff y mae angen iddynt ei gweld i wneud eu swyddi bydd yn cael ei gweld. Dim ond staff awdurdodedig sy'n cael defnyddio ein systemau gwybodaeth cyfrifiadurol a rhaid iddynt ddilyn gweithdrefnau diogelwch. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym ni neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd, yn cael eu cadw mor gyfredol ag sydd angen, yn cael eu diogelu'n briodol, yn cael eu hadolygu, a'u cadw'n ddiogel.

Rydym yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol priodol ar waith, gan gynnwys archwilio a monitro uniondeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth electronig rhag colli a chamddefnyddio data, a dim ond pan fydd rheswm dilys dros wneud hynny y ceir mynediad atynt, ac yna o dan ganllawiau llym ynghylch pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol a gynhwysir ynddynt. Caiff y gweithdrefnau hyn eu rheoli a'u gwella'n barhaus er mwyn sicrhau'r camau diogelwch diweddaraf.

Anfonir unrhyw wybodaeth y byddwn yn ei rhannu gydag asiantaethau eraill yn ddiogel, a chaiff ei rhannu gydag asiantaethau eraill o dan reolaethau gofalus yn unig, er mwyn sicrhau mai dim ond yn y ffyrdd a restrir yma y caiff ei defnyddio.

## 7. Rhannu eich gwybodaeth

Weithiau mae angen i MASH rannu gwybodaeth. Pan fo hyn yn angenrheidiol, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Isod ceir disgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gallai fod angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu gyda nhw:

- Darparwyr gwasanaethau gofal a chymorth
- Aelodau o'r teulu, gofalwyr, cysylltiadau neu gynrychiolwyr y sawl yr ydym yn prosesu ei ddata personol

- Sefydliadau fel iechyd neu addysg sy'n cydweithio â ni i ddarparu gwasanaethau ac amddiffyn unigolion
- Gwasanaethau'r heddlu
- Y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf
- Cymdeithasau tai
- Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol
- Adrannau eraill y cyngor
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Gwasanaethau rheoleiddio
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Asiantaethau a chyrff gorfodi'r gyfraith ryngwladol
- Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio gyda'r heddlu
- Archwilwyr

## 8. Eich Gwybodaeth chi eich hawliau chi

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhoi hawliau pwysig i chi, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth bersonol sydd gan y gwasanaethau amdanoch chi.

Gweld mwy o fanylion am eich hawliau gwybodaeth a sut i'w harfer:- https://www.bridgend.gov.uk/my-council/freedom-of-information/data-protection/

## 9. Am ba hyd y mae asiantaethau MASH yn cadw data personol?

Mae asiantaethau partner yn cadw data personol cyn hyd â bod hynny'n angenrheidiol at y diben neu'r dibenion penodol y'i cedwir ar ei gyfer, mae hyn yn unol â'u Polisïau Cadw Data yn Ddiogel perthnasol.

Mae Polisi Cadw Data'r Cyngor ar gael trwy'r ddolen ganlynol:-

https://www.bridgend.gov.uk/my-council/freedom-of-information/data-protection/

## 10. Cysylltwch â ni

Caiff unrhyw unigolyn sydd â phryderon ynghylch y ffordd y mae MASH yn ymdrin â'i ddata personol gysylltu â Swyddog Diogelu Data y Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB, CF31 4WB.
E-bost foi@bridgend.gov.uk
Rhif ffôn 01656 643565

Cewch hefyd godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ceir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399
E-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/